

Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 38 Tanygriffiad blynyddol i'r Ygrifennydd £3 AWST 1989

## HEN GRI

GAIR bach i'ch atgoffa o'r hyn sy'n troi'n dôn gron – os ydych ar ôl gyda'ch taliadau fe gewch air gyda'r rhifyn hwn yn nodi maint eich dyled, os oes un. Felly, un o ddau beth amdani – postio ar unwaith i'r ysgrifennydd neu ddod a'ch tâl a chael croeso ar faes y Brifwyl yn Llanrwst ym mhabel llyfrau ail-law YR HEN BOST – a dyna daro'r post i'r pared a'r rhai mwyaf byddar glywed. Oherwydd mae'r taliadau yma yr unig arian dibynadwy, ar wahan i help mawr Cyngor y Celfyddydau i barhau i gyhoeddi hyn o gylchgrawn – sy wedi codi'r cylchrediad bob blwyddyn.

Daw rhifyn y Nadolig allan ddechrau Rbagfyr fan bellaf – cyn i chi wario pob dimai ar Ffaddyr Crusmas a phetha felly. A mawr ddiolch am bob cefnogaeth hyd yn hyn.



Yr Arwest yn 1865 a gystadlai â'r Brifwyl. Isod taflen 1898. GWEL TUD 3

CYNHELIR

## ARWEST FARDDONOL GLAN GEIRIONYDD

Gorsedd Warantedig Beirdd Tywysogaeth Cymru, a Blaen Gymmanfa  
y Cyntafanedigion.

AR FRYN Y CANIADAU, GLAN GEIRIONYDD,  
Ddydd Llun, Awst 15fed, 1898.

YN NAWDD A BRAINT CYMMRODORIAETH BARDDAS.

Dan Lywyddiaeth Eryronwy a Breiniol Awdurdod.